Y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy Cymru

# Cynaliadwyedd Llywodraeth Cynulliad Cymru

2009

Rhagfyr 2009

## Cyflwyniad

Y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy yw sefydliad cynghori annibynnol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar ddatblygu cynaliadwy, yn atebol i'r Prif Weinidog, Prif Weinidogion Cymru a'r Alban a Prif Weinidog a Dirprwy Brif Weinidog Gogledd Iwerddon.  Drwy eirioli, cynghori ac arfarnu, rydym yn helpu i roi datblygu cynaliadwy wrth wraidd polisi'r llywodraeth.

Dyma asesiad cyntaf y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy o berfformiad gweithrediadau ystad gweinyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru yn erbyn ei thargedau Draig Werdd; ac mae'n cyflawni ymrwymiad a wnaed gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn ei chynllun datblygu cynaliadwy *Cymru'n Un Cenedl Un Blaned*.

Nod yr asesiad hwn yw llywio ac ysbrydoli gwelliannau parhaus ar draws Llywodraeth Cynulliad Cymru a'i helpu i fod yn esiampl i gyrff cyhoeddus, preifat a thrydydd sector eraill sy'n gweithredu yng Nghymru.

Mae'r asesiad cyntaf, sy'n seiliedig ar ddadansoddiad o'r data a roddwyd i ni ar gyfer cyfnod 2008/9, yn dangos er y gwneir cynnydd da iawn mewn rhai meysydd megis gwastraff, ni wneir cynnydd digonol mewn rhai meysydd eraill megis allyriadau o gerbydau.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru, ar y cyfan, yn symud i'r cyfeiriad cywir, ar ôl gwrthdroi ei chynnydd mewn allyriadau carbon a dangos tryloywder drwy gomisiynu'r asesiad annibynnol hwn.

Argymhellwn yn gryf bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn parhau â'r broses asesu annibynnol hon.  Ategir yr asesiad electronig hwn gan adroddiad mwy cynhwysfawr sy'n dadansoddi'r ffactorau sy'n sail i'r data a geir yn yr asesiad hwn, ac yn gwneud argymhellion ar sut y gellir gwella perfformiad yn y dyfodol.

### Llywodraeth Cynulliad Cymru

Llywodraeth Cynulliad Cymru yw cangen weithredol llywodraeth ddatganoledig yng Nghymru, gyda dyletswydd statudol i greu cynllun datblygu cynaliadwy sy'n nodi sut y bydd yn arfer ei swyddogaethau ac yn hyrwyddo datblygu cynaliadwy.  Un o nodau hysbys Llywodraeth Cynulliad Cymru yw gwella bywydau pobl Cymru a gwneud y genedl yn lle gwell i fyw a gweithio ynddi.

Mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru gymhwysedd mewn dros 20 pwnc yn cynnwys iechyd, addysg, datblygu economaidd, treftadaeth a'r iaith Gymraeg.

## Perfformiad yn erbyn Targedau'r Ddraig Werdd

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Allyriadau carbon o swyddfeydd a theithio at ddibenion busnes | | Allyriadau carbon o gerbydau |
| | Ailgylchu | | Deilliant gwastraff |
| | Defnydd o ddŵr | | Defnydd o ddŵr (adeiladu swyddfeydd newydd neu brosiectau adnewyddu mawr) |
| | Trydan sy'n deillio o ynni adnewyddadwy | | |

## Perfformiad yn erbyn systemau

| | | | |
|---|---|---|---|
| | BREEAM | | Arfarniadau o Gynaliadwyedd |
| | System Reoli Amgylcheddol | | Ymrwymiad yr Ymddiriedolaeth Garbon |

**Allwed**

| | |
|---|---|
| | Da iawn |
| | Da |
| | Rhywfaint o gynnydd |
| | Gwan |
| | Ddim yn briodol |

**Uchafbwyntiau**

- Cyflawnodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei tharged ar gyfer 2010 i leihau deilliant gwastraff o 5% (o gymharu â 2006/7) yn gynnar, gan gyflawni lleihad o 5.4% yn y flwyddyn adrodd hon (2008/9)

- Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn debygol iawn o ragori ar berfformiad Llywodraeth y DU ar ailgylchu. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyflawni cyfradd ailgylchu o 59% o ran deilliant gwastraff (o gymharu â 2006/7)

- Mae 85% o'r contractau cyflenwi trydan bellach ar dariff gwyrdd, gan ddarparu 73% o'r trydan a ddefnyddir ym mhob swyddfa.

**Isafbwyntiau**

- Er bod y cynnydd mewn allyriadau carbon deuocsid o adeiladau wedi cael ei wrthdroi, a bod yr allyriadau carbon deuocsid cyffredinol o ystad gweinyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gostwng (i lawr 4% yn y flwyddyn adrodd hon, o gymharu â'r flwyddyn flaenorol), cynyddodd allyriadau o gerbydau a ddefnyddiwyd at ddibenion busnes Llywodraeth Cynulliad Cymru 1.4% (2008/9 o gymharu â 2007/8)

- Nid yw graddfa'r gostyngiad mewn allyriadau carbon deuocsid yn y flwyddyn adrodd hon yn ddigonol i alluogi Llywodraeth Cynulliad Cymru i gyflawni ei tharged o leihau allyriadau 30% erbyn mis Rhagfyr 2010 (yn seiliedig ar linell sylfaen 2006/7)

  Mae'r defnydd o ddŵr ar ystâd weinyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gynnydd yn gyffredinol er gwaethaf gostyngiad yn y defnydd o ddŵr yn yr adeilad mwyaf ar yr ystâd (Parc Cathays).

## Gofal wrth gymharu

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithredu system reoli amgylcheddol sy'n cyfateb i ISO 14001, sef y fanyleb a dderbynnir yn rhyngwladol ar gyfer system reoli amgylcheddol. Er bod safon system reoli amgylcheddol Llywodraeth Cynulliad Cymru yn debyg i'r un a ddefnyddir gan Lywodraeth y DU ar gyfer ei hadrannau, ar y cyfan ni ellir gwneud cymariaethau tebyg at ei debyg rhwng targedau unigol.

Mae nifer o ffactorau yn gallu achosi hyn: gall yr amcan fod yn wahanol, neu defnyddir llinell sylfaen o flwyddyn wahanol, neu defnyddir taflwybr llinellol gwahanol. At hynny, mae natur ystad weinyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru yn sylweddol wahanol i ystad draws adrannol Llywodraeth y DU. Mae ystad weinyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru bron yn ddieithriad yn adeiladau swyddfa, tra bod ystad graidd draws adrannol Llywodraeth y DU yn llawer mwy amrywiol gydag ystadau tir helaeth, labordai, a chanolfannau milwrol (y ceir rhai ohonynt yng Nghymru, ac a asesir gan y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy yn ei Asesiad o Ddatblygu Cynaliadwy mewn Llywodraeth ar gyfer Llywodraeth y DU).

Felly, byddai'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy yn awgrymu pwyll mawr wrth lunio unrhyw gymariaethau uniongyrchol ag Adrannau Llywodraeth y DU. Gellir penderfynu ar berfformiad Llywodraeth Cynulliad Cymru yn erbyn ei thargedau ei hun (o gymharu â pherfformiad Llywodraeth y DU yn erbyn ei thargedau ei hun) a gellir nodi tueddiadau cyffredinol sy'n gallu tynnu ein sylw at feysydd lle mae Llywodraeth

Cynulliad Cymru naill ai'n rhagori neu'n tanberfformio (cyfeiriad teithio).

## Tablau Perfformiad

| | |
|---|---|
| **LLEIHAU ALLYRIADAU CARBON DEUOCSID O'R YSTAD WEINYDDOL A THEITHIO AT DDIBENION BUSNES** | |
| **TARGED** | 30% Lleihad o 30% mewn allyriadau carbon deuocsid cyfatebol o'r ystâd graidd a theithio at ddibenion busnes erbyn mis Rhagfyr 2010 o linell sylfaen 2006/7. |
| **PERFFORMIAD CYFFREDINOL** | |
| **SYLWADAETH**<br>• Mae'r targed hwn yn cwmpasu allyriadau o adeiladau ar ystad gweinyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru a theithio a wnaed gan bobl at ddibenion busnes Llywodraeth Cynulliad Cymru<br>• Yn 2008/9, gostyngodd yr allyriadau a gwmpasir gan y targed hwn 4% o gymharu â 2007/8. Fodd bynnag, mae'r gostyngiad hwn yn annigonol ac yn seiliedig ar y perfformiad hwn, nid fydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyflawni ei tharged ar gyfer mis Rhagfyr 2010<br>• Gan ddilyn taflwybr llinellol, byddai angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru leihau ei hallyriadau 16.4% y flwyddyn. Mae'r cynnydd mewn allyriadau mewn blwyddyn flaenorol (2006/7) yn golygu y bydd angen i'r taflwybr llinellol fod yn fwy serth er mwyn cyflawni'r targed<br>• Mae'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy yn cydnabod bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi pennu targed mwy uchelgeisiol na Llywodraeth y DU, sy'n briodol. Yn seiliedig ar daflwybr llinellol, byddai angen i Lywodraeth y DU gyflawni gostyngiadau o 10.2% y flwyddyn mewn allyriadau (o gymharu â 16.4% i Lywodraeth Cynulliad Cymru)<br>• Mae'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy yn croesawu'r gostyngiad cyffredinol mewn allyriadau, ond yn cydnabod bod angen rhoi pwyslais o'r newydd ar fynd i'r afael ag allyriadau carbon deuocsid er mwyn cyflawni'r targed hwn. Mae'r cymorth a roddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i'r *ymgyrch 10:10* yn dangos arweinyddiaeth y dylid ei chroesawu, ac mae angen atgyfnerthu hyn gan fesurau ymarferol pellach sy'n gostwng allyriadau. | |

| ALLYRIADAU CARBON DEUOCSID O GERBYDAU | |
|---|---|
| **TARGED** | Sicrhau lleihad o 30% yn yr allyriadau carbon o gerbydau a ddefnyddir at ddibenion teithio busnes LlCC erbyn mis Rhagfyr 2010 o gymharu â lefelau 2006/7. |
| **PERFFORMIAD CYFFREDINOL** | |

**SYLWADAETH**

- Yn benodol, mae'r targed hwn yn cwmpasu allyriadau o gerbydau ffordd a ddefnyddir at ddibenion teithio busnes Llywodraeth Cynulliad Cymru
- Cynyddodd allyriadau carbon o gerbydau a ddefnyddid at ddibenion busnes Llywodraeth Cynulliad Cymru (ceir ar log, ceir preifat, bysiau gwennol, cerbydau sy'n eiddo i Lywodraeth Cynulliad Cymru, faniau post, beiciau modur) 2% yn 2008-9 o gymharu â 2007-8. Cynyddodd allyriadau at yr holl ddibenion teithio (nid cerbydau ffordd yn unig) 1.4% (o gymharu â 2007-8).
- Gan ddilyn taflwybr llinellol, byddai angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru leihau ei hallyriadau 16.4% y flwyddyn. Mae'r cynnydd parhaus mewn allyriadau eleni ac mewn blynyddoedd blaenorol yn golygu bod angen i'r taflwybr llinellol sydd ei angen i gyflawni'r targed fod yn llawer mwy serth
- Mae gweithgareddau i leihau'r galw a sicrhau newid moddol wedi cynnwys ymestyn technoleg gynadledda i 39 o safleoedd ledled Cymru a Chynlluniau Teithio i annog newid moddol o ran tanddatblygu yn Aberystwyth a Chyffordd Llandudno
- Mae'r targed hwn yn cymharu â tharged Llywodraeth y DU i leihau allyriadau o gerbydau ffordd a ddefnyddir at ddibenion gwaith gweinyddol y Llywodraeth 15% erbyn 2010/11 o gymharu â 2005/06. Mae'r llinell sylfaen, y gostyngiad canrannol a'r terfyn amser yn wahanol i darged Llywodraeth Cynulliad Cymru
- Mae'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy yn pryderu am berfformiad yn y maes hwn, a bydd yn asesu Polisi a Chynllun Gweithredu Teithio Gwyrdd Llywodraeth Cynulliad Cymru, sydd â'r nod o leihau'r effaith y mae teithio at ddibenion busnes Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei chael ar yr amgylchedd mewn adroddiad ar Ddatblygu Cynaliadwy mewn Llywodraeth yn y dyfodol.

| TRYDAN SY'N DEILLIO O YNNI ADNEWYDDADWY | |
|---|---|
| **TARGED** | Caffael 100% o drydan adnewyddadwy ar draws yr ystad erbyn 2010 mewn adeiladau lle mai Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n gyfrifol am y cyflenwad. |
| **PERFFORMIAD CYFFREDINOL** | |

**SYLWADAETH**

- Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi perfformio'n dda iawn yn erbyn ei tharged o sicrhau 100% o drydan adnewyddadwy ar draws ei hystad erbyn 2010
- 85% mae 85% o'r contractau cyflenwi trydan bellach ar dariff gwyrdd, gan ddarparu 73% o'r trydan a ddefnyddir ym mhob swyddfa
- Mae targed Cymru yn llawer mwy uchelgeisiol na'r targed a bennwyd gan Lywodraeth y DU, sy'n ei wneud yn ofynnol i'w hadrannau gael o leiaf 10% o'u trydan o ynni adnewyddadwy erbyn 31ain Mawrth 2008
- Mae'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy yn croesawu'r cynnydd y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud ar gaffael ynni adnewyddadwy.

| DEILLIANT GWASTRAFF | |
|---|---|
| **TARGED** | Lleihau deilliant gwastraff o 5% erbyn 2010 o gymharu â 2006-7 |
| **PERFFORMIAD CYFFREDINOL** | |

**SYLWADAETH**

- Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi perfformio'n dda iawn ac wedi cyflawni ei tharged ar gyfer 2010 yn ystod blwyddyn adrodd 2008/9
- Gan ddilyn taflwybr llinellol, disgwylid y byddai Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gostwng deilliant gwastraff o leiaf 2.7% o gymharu â 2006/7. Yn 2008/9 cyflawnodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ostyngiad o 5.4% o gymharu â 2006/7
- Mae ei tharged o leihau deilliant gwastraff o 5% erbyn 2010 o gymharu â 2006/7 yn cymharu â tharged Llywodraeth y DU i'w hadrannau leihau eu deilliant gwastraff o 5% erbyn 2010, o gymharu â lefelau 2004/5
- Mae'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy yn croesawu cynnydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y maes hwn.

| **AILGYLCHU** | |
|---|---|
| **TARGED** | Cynyddu ailgylchu i 80% o'r deilliant gwastraff erbyn 2010 |
| **PERFFORMIAD CYFFREDINOL** | |

**SYLWADAETH**

- Heb flwyddyn llinell sylfaen, mae'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy wedi barnu perfformiad cyffredinol Llywodraeth Cynulliad Cymru yn erbyn ei tharged ei hun ac o gymharu â tharged Llywodraeth y DU
- Mae'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy wedi dyfarnu bod perfformiad Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dda iawn, gyda chyfradd ailgylchu o 59% o ddeilliant gwastraff yn 2008/9
- Mae nod Llywodraeth Cynulliad Cymru o gynyddu cyfraddau ailgylchu deilliant gwastraff gyda tharged o 80% erbyn 2010 yn rhagori ar darged Llywodraeth y DU o 40% erbyn 2010 a 75% erbyn 2020
- Er y bydd angen parhau i berfformio'n dda i gyrraedd targed heriol Cymru erbyn 2010, mae perfformiad Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyrraedd targed Llywodraeth y DU ar gyfer 2010 yn gynnar
- Mae'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy yn croesawu cynnydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y maes hwn.

| DEFNYDD O DDŴR | |
|---|---|
| **TARGED** | Lleihau'r defnydd o ddŵr o 25% ar yr ystad weinyddol graidd erbyn 2020, o gymharu â lefelau 2006/7. |
| **PERFFORMIAD CYFFREDINOL** | |

**SYLWADAETH**

- Byddai cynnydd da wedi'i fesur gan leihad o 6.7% neu fwy yn y defnydd o ddŵr yn 2007/8 o gymharu â lefelau 2006/7. Fodd bynnag, bu cynnydd o 11.8% yn y defnydd o ddŵr yn 2008/9 o gymharu â 2007/8
- Mae targed Llywodraeth Cynulliad Cymru o leihau'r defnydd o ddŵr o 25% ar yr ystad weinyddol erbyn 2020 o gymharu â lefelau 2006/7 yn cymharu â tharged Llywodraeth y DU i'w hadrannau leihau eu defnydd o ddŵr 25% ar yr ystad swyddfeydd a'r ystad nad yw'n swyddfeydd erbyn 2020, o gymharu â lefelau 2004/05
- Oherwydd y gwahaniaeth mewn blynyddoedd llinell sylfaen, ac am fod Llywodraeth y DU wedi cynnwys ei hystad i gyd o fewn ei tharged, dylid gochel rhag llunio cymariaethau tebyg at ei debyg rhwng perfformiad Llywodraeth Cynulliad Cymru a pherfformiad Llywodraeth y DU
- Er bod y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy yn pryderu am berfformiad yn y maes hwn, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymwybodol o'i diffyg cynnydd ac mae'n datblygu archwiliadau dŵr a rhaglenni buddsoddi ac yn cael cyngor gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru. Er y cafwyd gostyngiad yn y defnydd o ddŵr ym Mharc Cathays, nodwyd arbedion pellach
- Bydd y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy yn monitro ac yn helpu Llywodraeth Cynulliad Cymru i ostwng ei defnydd o ddŵr yn y dyfodol.

| EFFEITHLONRWYDD DŴR MEWN ADEILADAU NEWYDD | |
|---|---|
| **TARGED** | Lleihau'r defnydd o ddŵr i gyfartaledd o 3m3 y pen/y flwyddyn ar gyfer pob adeilad swyddfa newydd a gwaith adnewyddu swyddfeydd sylweddol. |
| **PERFFORMIAD CYFFREDINOL** | |

**SYLWADAETH**

- Gan nad oedd unrhyw adeiladau newydd yn agor eleni, nid yw’r targed hwn yn briodol i’r flwyddyn yr adroddir amdani yn yr asesiad hwn
- Nid yw adeilad Merthyr Tudful, a agorwyd ym mis Tachwedd 2006, yn ei flwyddyn adrodd lawn o weithredu, wedi cwrdd â’r targed i ddefnyddio dŵr ar neu o dan gyfartaledd o 3m3 y person y flwyddyn.
- Er bod y targed cyfredol o ran y defnydd o ddŵr yn 3m3 y pen y flwyddyn ar gyfartaledd; pan roedd cynlluniau ar gyfer adeilad Merthyr Tudful yn cael eu datblygu, targed defnydd dŵr Llywodraeth Cynulliad Cymru oedd 7m3. Fodd bynnag, hyd yn oed yn erbyn y targed is hwn, mae adeilad Merthyr Tudful wedi tanberfformio yn ystod ei flwyddyn gyntaf o weithredu, gan ddefnyddio 10.9m3 y pen y flwyddyn yn 2008/9
- Er bod Llywodraeth y DU wedi pennu'r un targed ar gyfer ei gweithrediadau adrannol, dylid gochel rhag llunio cymariaethau tebyg at ei debyg oherwydd y gwahaniaeth enfawr mewn arbedion maint rhwng y ddwy ystad
- Agorodd swyddfeydd newydd a adeiladwyd yn Aberystwyth yn 2009, a bydd safle Cyffordd Llandudno yn agor yn haf 2010. Nododd Llywodraeth Cynulliad Cymru y bydd y ddau adeilad yn cynnwys nodweddion i leihau'r defnydd o ddŵr
- Bydd y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy yn adrodd ar berfformiad swyddfeydd Aberystwyth a Chyffordd Llandudno yn adroddiadau'r dyfodol
- Mae'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy yn argymell y rhoddir pwyslais o'r newydd ar leihau'r defnydd o ddŵr.

## Systemau

| BREEAM | |
|---|---|
| **SYSTEM** | Safon BREEAM 'rhagorol' ar gyfer pob adeilad newydd a 'da iawn', gan anelu at 'ragorol' ar gyfer yr holl waith adnewyddu sylweddol. |
| **PERFFORMIAD CYFFREDINOL** | |
| **SYLWADAETH** | |

**SYLWADAETH**

- Er na chafodd unrhyw waith adeiladu newydd na gwaith adnewyddu mawr ei gwblhau yn ystod y flwyddyn adrodd hon (2008/9), mae'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy yn fodlon bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn parhau i wneud cynnydd da yn erbyn y targed hwn.  Dyfarnwyd safon 'rhagorol' i adeilad Merthyr Tudful ac ymddengys bod adeilad Aberystwyth (a agorwyd yn 2009) ac adeilad Cyffordd Llandudno (i'w agor yn 2010) ar y trywydd iawn i gyflawni safon 'rhagorol' Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BREEAM) ar gyfer datblygiad cynaliadwy
- Mae'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy yn croesawu cynnydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y maes hwn.

| SYSTEM REOLI AMGYLCHEDDOL | |
|---|---|
| **SYSTEM** | Lefel 5 y Ddraig Werdd ar draws ystad weinyddol graidd Llywodraeth Cynulliad Cymru erbyn mis Gorffennaf 2009 |
| **PERFFORMIAD CYFFREDINOL** | |

**SYLWADAETH**

- O'r 81 o safleoedd yn yr ystad weinyddol yn ystod blwyddyn adrodd 2008/9, roedd gan 17 ohonynt system Lefel 5 yn 2008-9 (o gymharu ag 16 yn 2007-8) sy'n cynrychioli 21% o'r safleoedd gweinyddol. O'r 17 hynny, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn berchen ar wyth ohonynt, gan gynnwys y safle mwyaf, sef Parc Cathays. Mae hyn yn cymharu â phedwar yn 2007-8.
- Mae saith safle ychwanegol ar Lefel 2 neu Lefel 3
- Er y gwneir rhywfaint o gynnydd i ardystio safleoedd, mae'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy yn argymell y dylid rhoi pwyslais o'r newydd ar gyflawni cam 3 Prosiect Cyflwyno'r Ddraig Werdd, sydd â'r nod o ymestyn y dystysgrif Lefel 5 i bob un o 81 o swyddfeydd yr ystad yn 2009-10
- Mae'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy wedi dod i'r casgliad bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud yn erbyn y targed hwn.

| ARFARNIADAU O GYNALIADWYEDD | |
|---|---|
| **SYSTEM** | Bellach mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ymrwymiad penodol i ystyried mabwysiadu arfarniadau o gynaliadwyedd wrth adleoli swyddfeydd. |
| **PERFFORMIAD CYFFREDINOL** | |

**SYLWADAETH**

- Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gwneud ymrwymiad i ystyried mabwysiadu dull Defra o gynnal arfarniadau o gynaliadwyedd wrth adleoli swyddfeydd, a dywed ei Hadroddiad Amgylcheddol 2008-09 ei bod yn ystyried datblygu polisïau gyda Llywodraeth y DU a'r gwersi a ddysgwyd o'u cynnydd'
- Yn 2007-8, cynhaliodd 76% o adrannau Llywodraeth y DU arfarniadau o gynaliadwyedd adleoli swyddfeydd, oedd ychydig yn brin o'r ymrwymiad ar gyfer 100%
- Wedi ystyried p'un a ddylid mabwysiadu dull o'r fath, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru weithio gyda'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy wrth benderfynu'n derfynol sut y gellir cyflwyno dull o'r fath yng Nghymru.

| YMRWYMIAD YR YMDDIRIEDOLAETH GARBON | |
|---|---|
| **SYSTEM** | Llywodraeth Cynulliad Cymru i fabwysiadu Rhaglen Rheoli Carbon yr Ymddiriedolaeth Garbon. |
| **PERFFORMIAD CYFFREDINOL** | |

**SYLWADAETH**

- Er bod Llywodraeth Cynulliad Cymru bellach wedi dechrau ar y cam gweithredu yn dilyn dyrannu £2.1 miliwn yn 2008/9, ni chafwyd cynnydd digonol ar ei Strategaeth Rheoli Carbon arfaethedig na gweithredu Safon Rheoli Carbon yr Ymddiriedolaeth Garbon
- Felly mae'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy wedi dod i'r casgliad y gwnaed rhywfaint o gynnydd yn erbyn y targed hwn.

## Perfformiad nad yw wedi'i gynnwys yn yr asesiad hwn yn uniongyrchol

O gofio'r set o amcanion gwahanol a geir yng nghynllun Draig Werdd Llywodraeth Cynulliad Cymru o gymharu â'r set o amcanion yn fframwaith SOGE Llywodraeth y DU; ceir nifer o feysydd lle mae naill ai Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi pennu amcan, ond nad yw Llywodraeth y DU wedi gwneud hynny; neu lle mae amcan Llywodraeth Cynulliad Cymru mor wahanol i amcan Llywodraeth y DU fel y byddai asesu'r ddau gan ddefnyddio'r fethodoleg hon yn arwain at ddyfarniad 'ddim yn gymwys'. Nid yw hyn yn golygu nad yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cymryd camau yn y meysydd hyn; ond yn hytrach bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi dewis trefnu gweithgareddau'n wahanol. Y meysydd hyn yw:

- Effeithlonrwydd ynni
- Bioamrywiaeth
- Trydan o Wres a Phŵer Cyfunedig
- Niwtraledd carbon.

Mae'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy wedi dileu amcanion o'r fath o brif adran yr asesiad, ond mae'n rhoi sylwadaeth isod ar y meysydd hynny gan eu bod yn rhan o asesiad y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy o ystad Llywodraeth y DU.

### Effeithlonrwydd ynni

Mae Adroddiad Amgylcheddol Safon Draig Werdd Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer 2008-9 yn nodi manylion y gweithgareddau a'r canlyniadau ym maes effeithlonrwydd ynni. Yn hanesyddol, mae Llywodraeth y DU wedi pennu amcan ar sail y defnydd o ynni yn erbyn arwynebedd llawr.

Penderfynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei bod yn amhriodol cynnwys targed effeithlonrwydd ynni yn ei System Reoli Amgylcheddol, er ei bod yn gwneud cynnydd ar effeithlonrwydd ynni. Mae'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy yn cytuno er y gall targed ar effeithlonrwydd ynni ddynodi cynnydd a thueddiadau, ei bod yn hanfodol wrth asesu perfformiad i gynnwys dadansoddiad o'r cyd-destun ehangach (fel p'un a yw'r gofod llawr wedi cynyddu, gan amharu ar ffigurau o bosibl). Bydd y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy yn asesu'r ffordd orau o gynnwys effeithlonrwydd ynni yn y broses adrodd hon.

### Bioamrywiaeth

Targed Adrannau Llywodraeth y DU yw cyrraedd neu ragori ar y nod o gael 95% o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) sydd o dan berchenogaeth neu reolaeth unigol yn y cyflwr targed erbyn 2010. Dim ond 7 o adrannau Llywodraeth y DU sy berchen neu'n rhannol-berchen ar SoDdGA. Gan nad oes unrhyw ran o ystad weinyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, nid yw'r targed hwn yn berthnasol.

### Trydan o Wres a Phŵer Cyfunedig

Mae Llywodraeth y DU wedi pennu targed i'w hadrannau gael o leiaf 15% o'u trydan o Wres a Phŵer Cyfunedig erbyn 31 Mawrth 2010 (nid yw'r targed hwn yn berthnasol os daw dros 85% o'r trydan o ynni adnewyddadwy). Fodd bynnag, gan fod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi pennu targed i gaffael 100% o drydan o ynni

adnewyddadwy, nid yw'r targed hwn yn berthnasol yn yr enghraifft hon.

**Niwtraledd carbon**

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi pennu targed uchelgeisiol i'w hun o gyflawni niwtraledd carbon ar ei hystad ei hun erbyn 2012. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu cyflawni niwtraledd carbon drwy leihau'r defnydd o ynni a lleihau gwastraff, defnyddio ynni adnewyddadwy ar y safle a microgynhyrchu, a gwrthbwyso unrhyw ddiffyg. Nid yw'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy wedi asesu perfformiad yn erbyn y targed hwn eleni. Ar sail perfformiad cyfredol, nid yw'n debygol y cyflawnir niwtraledd carbon drwy wrthbwyso carbon hyd nes y cyrhaeddir y dyddiad targed o 2012. Noda Adroddiad Amgylcheddol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer 2008-9, yn ogystal â mesurau rheoli carbon ac effeithlonrwydd ynni, bod gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu polisi ar wrthbwyso. Mae angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru ddarparu canllawiau diffiniol o ran niwtraledd carbon ar gyfer ei hystad weinyddol. Asesir y targed hwn mewn adroddiadau Datblygu Cynaliadwy mewn Llywodraeth yn y dyfodol pan y bo'n briodol.

## Diolchiadau

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Stephen Brooks a Peter Davies, Comisiynydd Cymru.

Gyda diolch arbennig i Farooq Ullah a Callum Clench o Dîm Corff Gwarchod y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy. Simon Bilsborough o Uned Strategaeth Gorfforaethol Adran yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai; a Donald Cheyne a Charmaine Watts o Dîm Gweithrediadau Gwyrdd Llywodraeth Cynulliad Cymru.